# RHAN 3

# 3.1 CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU

## Cyflwyniad

Mae Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gwneud y Cabinet yn gyfrifol am holl swyddogaethau'r Cyngor, ac eithrio'r rheiny a nodwyd yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol)(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 fel rhai nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Cabinet i ryw raddau.

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau'n rhestru'r swyddogaethau hynny na chaniateir iddynt fod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet. Yn unol â hynny, dyrannwyd y swyddogaethau hyn i'r Cyngor, fel y nodir yn **nhabl 1** isod. Dirprwyir rhai o swyddogaethau'r Cyngor i Bwyllgorau'r Cyngor, a gwelir cylch gwaith a chyfansoddiad y rheiny yn **nhabl 3**.

Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn cyflwyno'r swyddogaethau hynny a all fod (er nad o reidrwydd) yn gyfrifoldeb i'r Cabinet. Rhestrir y swyddogaethau hyn (a adwaenir hefyd fel swyddogaethau "dewis lleol") yn **nhabl 2** isod, gyda phob swyddogaeth yn cael ei dyrannu naill ai i'r Cyngor neu i'r Cabinet, fel y nodir yn ail golofn y tabl.

Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn cynnwys rhestr o'r swyddogaethau hynny na chânt fod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet yn unig. Mae'r swyddogaethau hyn yn ymwneud ag amrywiol strategaethau a chynlluniau corfforaethol, y rhennir cyfrifoldeb amdanynt rhwng y Cyngor a'r Cabinet, fel y nodir **ym mharagraff 4.1 o Erthygl 4 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad.**

Cyflwynir swyddogaethau eraill a ymarferir yn gyffredin gan y Cabinet yn unig yn **nhabl 4**, ond nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol, ac felly os na restrir swyddogaeth yn benodol mewn unrhyw un o'r tablau, y Cabinet fydd yn gyfrifol am y swyddogaeth honno.

Gellir dirprwyo swyddogaethau'r Cyngor a/neu'r Cabinet i gyrff neu swyddogion eraill sy'n gwneud penderfyniadau, a nodir hynny, lle bo'n berthnasol, yng ngholofn dde y tabl dan sylw. Fodd bynnag, mae'r Cyngor a/neu'r Cabinet yn dal yn gyfrifol am y swyddogaeth, er ei bod wedi cael ei dirprwyo.

Lle nodir mewn unrhyw un o'r tablau fod swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i swyddogion, cyflwynir yr amgylchiadau sy'n caniatáu i swyddogion ymarfer swyddogaethau dirprwyedig yn y **Cynllun Dirprwyo**, y ceir copi ohono ar ddiwedd Rhan 3.

### TABL 1 – SWYDDOGAEATHAU'R CYNGOR

### A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref a Rheoli Datblygu

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **1.** Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio | Adrannau 70(1) (a) a (b) a 72 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **2.** Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a osodwyd o'r blaen | Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **3.** Pŵer i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi'i gyflawni | Adran 73A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **4.** Pŵer i wrthod penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio | Adran 70A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **5.** Dyletswyddau sy'n ymwneud â dod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio | Adrannau 69, 76 a 92 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Erthyglau 8, 10 i 13, 15 i 22 a 25 a 26 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995 (S.I. 1995/419) a'r cyfarwyddiadau a geir yno | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **6.** Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir gan awdurdod lleol, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â pherson arall | Adran 316 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (S.I. 1992/1492) | Y Pwyllgor Cynllunio. |
| **7.** Pŵer i wneud penderfyniadau, cymeradwyo a chytuno ar faterion penodol eraill sy'n ymwneud ag ymarfer hawliau datblygu a ganiateir | Rhannau 6, 7, 11, 17, 19, 20, 21 i 24, 30 a 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (S.I. 1995/418) | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **8.** Pŵer i lunio rhwymedigaeth gynllunio, sy'n rheoleiddio datblygiad tir neu ddefnydd o dir | Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **9.** Pŵer i ddyroddi tystysgrif o ddefnydd neu ddatblygiad cyfreithlon presennol neu arfaethedig | Adrannau 191(4) ac 192(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **10.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad cwblhau | Adran 94(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **11.** Pŵer i roi caniatâd i arddangos hysbysebion | Adran 220 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **12.** Pŵer i awdurdodi mynediad ar dir | Adran 196A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **13.** Pŵer i ofyn bod defnydd o dir yn dod i ben | Adran 102 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **14.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio, hysbysiad torri amod neu hysbysiad atal gwaith | Adrannau 171C, 187A ac 183(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **15.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad gorfodi | Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **16.** Pŵer i wneud cais am waharddeb i atal torri rheol gynllunio | Adran 187B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **17.** Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatáu sylweddau peryglus, a phwerau cysylltiedig | Adrannau 9(1) a 10 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **18.** Dyletswydd i bennu'r amodau y mae hen ganiatâd mwyngloddio, caniatâd cynllunio perthnasol sy’n ymwneud â safleoedd segur neu safleoedd gweithredol Rhan I neu II, neu ganiatâd mwynol yng nghyswllt safleoedd mwyngloddio, yn ôl yr achos dan sylw, i fod yn ddarostyngedig iddynt | Paragraff 2(6)(a) o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991, paragraff 9(6) o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995, a pharagraff 6(5) o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno | Y Pwyllgor Cynllunio<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **19.** Pŵer i ofyn bod tir yn cael ei gynnal yn iawn | Adran 215(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **20.** Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 16(1) a (2), 17 a 33(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **21.** Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd mewn ardal gadwraeth | Adran 16(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 fel y'i cymhwysir gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **22.** Dyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth | Adran 13(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a rheoliadau 3 i 13 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a pharagraff 127 o gylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **23.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad cadw adeilad, a phwerau cysylltiedig | Adrannau 3(1) a 4(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **24.** Pŵer i ddyroddi hysbysiad gorfodi ynghylch adeilad rhestredig | Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **25.** Pwerau i gaffael adeilad rhestredig y mae angen ei atgyweirio a chyflwyno hysbysiad atgyweirio | Adrannau 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **26.** Pŵer i wneud cais am waharddeb mewn perthynas ag adeilad rhestredig | Adran 44A o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **27.** Pŵer i wneud gwaith brys | Adran 54 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **28.** Pŵer sy'n gysylltiedig â gweithio mwynau | Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **29.** Pŵer sy'n gysylltiedig â llwybrau troed a llwybrau ceffyl. | Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **30.** Pŵer i ardystio datblygiadau amgen priodol. | Adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 | Y Pwyllgor Cynllunio.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **31.** Dyletswyddau yng nghyswllt hysbysiadau prynu | Adrannau 137-144 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **32.** Pwerau sy'n gysylltiedig â hysbysiadau malltod | Adrannau 149-171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |

**B. Swyddogaethau Trwyddedu a Chofrestru (i'r graddau nad yw unrhyw baragraff arall yng ngweddill Tabl 1 yn ymdrin â hwy).**

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **1.** Pŵer i ddyroddi trwyddedau sy'n awdurdodi defnyddio tir yn safle carafanau ("trwyddedau safle") | Adran 3(3) o Ddeddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **2.** Pŵer i drwyddedu defnydd o anheddau symudol a safleoedd gwersylla | Adran 269(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **3.** Pŵer i drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat | (a) o ran cerbydau hacni, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, fel y'i hestynnwyd gan Adran 171 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1875 ac adran 15 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985; ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976<br>(b) o ran cerbydau hurio preifat, adrannau 48, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 | Y Pwyllgor Trwyddedu.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **4.** Pŵer i drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat | Adrannau 51, 53, 54, 59, 61 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 | Y Pwyllgor Trwyddedu.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **5.** Pŵer i drwyddedu gweithredwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat | Adrannau 55 i 58, 62 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 | Y Pwyllgor Trwyddedu.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **6.** Pŵer i gofrestru hyrwyddwyr pŵls | Atodlen 2 i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **7.** Pŵer i roi trwyddedau betio ar gyfer traciau | Atodlen 3 i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **8.** Pŵer i drwyddedu cynlluniau betio rhwng gwahanol draciau. | Atodlen 5ZA i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963 | Y Pwyllgor Trwyddedu |
| **9.** Pŵer i roi hawlenni ar gyfer safleoedd sydd â pheiriannau chwarae | Atodlen 9 i Ddeddf Hapchwarae 1968 | Y Pwyllgor Trwyddedu |
| **10.** Pŵer i gofrestru cymdeithasau sy'n dymuno hyrwyddo loterïau | Atodlen 1 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **11.** Pŵer i roi hawlenni ar gyfer safleoedd lle darperir difyrion â gwobrau | Atodlen 3 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **12.** Pŵer i ddyroddi trwyddedau adloniant | Adran 12 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 | Bellach wedi'i disodli gan Ddeddf Trwyddedu 2003 |
| **13.** Pŵer i drwyddedu siopau rhyw a sinemâu rhyw | Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1982 ac Atodlen 3 i'r ddeddf honno | Y Pwyllgor Trwyddedu. |
| **14.** Pŵer i drwyddedu perfformiadau hypnotiaeth | Deddf Hypnotiaeth 1952 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **15.** Pŵer i drwyddedu safleoedd ar gyfer aciwbigo, tatŵio, tyllu clustiau ac electrolysis | Adrannau 13 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1982 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **16.** Pŵer i drwyddedu cychod pleser a llongau pleser | Adran 94 o Ddeddf Newid Deddfau Iechyd Cyhoeddus 1907 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **17.** Pŵer i drwyddedu masnachu mewn marchnadoedd ac ar y stryd | Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1982 ac Atodlen 4 i'r ddeddf honno | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **18.** Dyletswydd i gadw rhestr o bersonau sydd â'r hawl i werthu gwenwynau nad ydynt yn feddyginiaeth | Adrannau 3(1)(b)(ii), 5, 6 ac 11 o Ddeddf Gwenwynau 1972 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **19.** Pŵer i drwyddedu delwyr helgig a lladd a gwerthu helgig | Adrannau 5, 6, 17, 18 ac 21 i 23 o Ddeddf Helwriaeth 1831; adrannau 2 i 16 o Ddeddf Trwyddedau Helwriaeth 1860, adran 4 o Ddeddf Tollau a Chyllid y Wlad 1883, adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1894, ac adran 213 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **20.** Pŵer i gofrestru a thrwyddedu safleoedd ar gyfer paratoi bwyd | Adran 19 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **21.** Pŵer i drwyddedu iardiau sgrap | Adran 1 o Ddeddf Masnachwyr Metelau Sgrap 1964 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **22.** Pŵer i ddyroddi, newid neu amnewid tystysgrifau diogelwch (cyffredinol/ arbennig) ar gyfer meysydd chwarae | Deddf Diogelwch Meysydd Chwarae 1975 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **23.** Pŵer i ddyroddi, dileu, newid neu amnewid tystysgrifau diogelwch ar gyfer standiau rheoledig mewn meysydd chwarae | Rhan III o Ddeddf Diogelwch rhag Tân a Diogelwch Safleoedd Chwaraeon 1987 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **24.** Dyletswydd i hyrwyddo diogelwch rhag tân | Adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **25.** Pŵer i drwyddedu safleoedd ar gyfer bridio cŵn | Adran 1 o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 ac adran 1 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
| --- | --- | --- |
| **26.** Pŵer i drwyddedu siopau anifeiliaid anwes a sefydliadau eraill lle caiff anifeiliaid eu bridio neu eu cadw er mwyn cynnal busnes | Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951; adran 1 o Ddeddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963; Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970; adran 1 o Ddeddf Bridio Cŵn 1973, ac Adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **27.** Pŵer i gofrestru hyfforddwyr ac arddangoswyr anifeiliaid | Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **28.** Pŵer i drwyddedu sŵau. | Adran 1 o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **29.** Pŵer i drwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus | Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **30.** Pŵer i orfodi rheoliadau yng nghyswllt sgil-gynhyrchion anifeiliaid | Rheoliad 49 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **31.** Pŵer i drwyddedu cyflogi plant | Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, is-ddeddf-au a luniwyd o dan y Rhan honno, a Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **32.** Pŵer i gymeradwyo safleoedd ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil | Adran 46A o Ddeddf Priodas 1949, adran 6A o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 a Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 (S.I. 2005/3168) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **33.** Pŵer i gofrestru tir comin neu feysydd pentrefi neu drefi, ac eithrio lle gellir ymarfer y pŵer ar gyfer cyflawni'r canlynol yn unig:<br>(a) cyfnewid tiroedd y mae gorchymyn o dan adran 19(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981 neu baragraff 6(4) o Atodlen 3 iddi yn effeithio arnynt neu<br>(b) gorchymyn o dan adran 147 o Ddeddf Amgáu Tiroedd 1845 | Rheoliad 6 o Reoliadau Cofrestru Tir Comin (Tir Newydd) 1969 (S.I. 1969/1843) | Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu & Gwasanaethau Sifil a Swyddog Monitro i ystyried ceisiadau a phenderfynu arnynt, ar sail eu rhinweddau cyfreithiol, am gofrestru Tir Comin a Meysydd Pentrefi a gyflwynir o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965, gan gynnwys penodi arolygydd a chynnal ymchwiliad cyhoeddus pan fo Cwnsler yn cynghori hynny, a, lle cynhelir ymchwiliad o'r fath, gweithredu'r argymhellion a geir yn adroddiad yr Arolygydd. |

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyir i** |
|---|---|---|
| **34.** Pŵer i gofrestru amrywiadau ar hawliau comin | Rheoliad 29 o Reoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966 (S.I. 1966/1471) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **35.** Pŵer i ddyroddi hawlen ar gyfer cynnal casgliadau elusennol | Adran 68 o Ddeddf Elusennau 1992 | Y Pwyllgor Trwyddedu.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **36.** Pŵer i roi caniatâd ar gyfer gweithredu uchelseinydd | Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **37.** Pŵer i roi trwydded ar gyfer gwaith stryd | Adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **38.** Dyletswydd i gofrestru symudiadau moch | Rheoliadau 21(3) a (4) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Clustnodi a Symud) (Cymru) 2004 (S.I. 2004/996) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **39.** Pŵer i orfodi rheoliadau yng nghyswllt symud moch | Rheoliad 27(1) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Clustnodi a Symud) (Cymru) 2004/996 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **40.** Pŵer i roi trwydded i symud gwartheg o farchnad | Erthygl 5(2) o Reoliadau Clustnodi Gwartheg 1998 (S.I. 1998/871) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **41.** Pŵer i ganiatáu defnyddio rhannau o adeiladau ar gyfer storio selwloid | Adran 1 o Ddeddf Selwloid a Ffilmiau Sinematograff 1922 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **42.** Dyletswydd i orfodi a gweithredu Rheoliadau (Cymuned Ewrop) Rhif 852/2004 ac 853/2004 yng nghyswllt gweithredwyr busnesau bwyd fel y nodir ymhellach yn rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid)(Cymru) 2006 | Rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **43.** Swyddogaethau yng nghyswllt sefydlu Pwyllgor Trwyddedu | Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 | Y Cyngor |

## C. Swyddogaethau sy'n Ymwneud â Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **1.** Swyddogaethau o dan unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" oddi mewn i ystyr Rhan 1 (iechyd, diogelwch a lles mewn cysylltiad â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni heblaw yn rhinwedd swyddogaeth yr Awdurdod fel cyflogwr | Rhan I o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

## D. Swyddogaethau sy'n Ymwneud ag Etholiadau

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **1.** Dyletswydd i benodi swyddog cofrestru etholiadol | Adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **2.**Pŵer i bennu gorchwylion i swyddogion yn ôl gofynion y swyddog cofrestru. | Adran 52(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **3.** Pŵer i ddiddymu cynghorau cymuned. | Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor. |
| **4.** Pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer grwpio cymunedau | Adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor. |
| **5.** Pŵer i wneud gorchmynion i ddiddymu grwpiau a gwahanu cynghorau cymuned oddi wrth grwpiau | Adran 29A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor. |
| **6.** Dyletswydd i benodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol | Adran 35 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Y Cyngor. |
| **7.** Dyletswydd i roi cymorth yn etholiadau Senedd Ewrop | Adrannau 6(7) ac (8) o Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **8.** Dyletswydd i rannu'r etholaeth yn ardaloedd pleidleisio. | Adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Y Cyngor. |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **9.** Pŵer i rannu rhanbarthau etholaethol yn ardaloedd pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. | Adran 31 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Y Cyngor. |
| **10.** Pwerau yng nghyswllt cynnal etholiadau | Adran 39(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **11.** Pŵer i dalu treuliau priodol y bu swyddogion cofrestru etholiadol yn gwario'n briodol arnynt | Adran 54 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **12.** Pŵer i lenwi llefydd gwag os na cheir digon o enwebiadau | Adran 21 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **13.** Dyletswydd i ddatgan bod lle gwag mewn swydd mewn rhai achosion | Adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **14**. Pŵer i newid y system bleidleisio sy'n berthnasol i etholiadau'r Cyngor | Adran 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Cyngor |
| **15.** Dyletswydd i hysbysu'r cyhoedd ynghylch lle gwag achlysurol | Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **16.** Pŵer i wneud penodiadau dros dro i gynghorau cymuned | Adran 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **17.** Pŵer i benderfynu ar ffïoedd ac amodau ar gyfer darparu copïau o ddogfennau etholiadol neu rannau ohonynt. | Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) 1986 (S.I. 1986/2214) a rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) 1986 (S.I. 1986/2215) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **18.** Pŵer i gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gorchymyn o dan adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr ) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 | Adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 | Y Cyngor.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **19.** Amrywiol swyddogaethau etholiadol o dan Ran II (S.I. 2003/284) | Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003 (S.I. 2003/284) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

### E. Swyddogaethau sy'n Ymwneud ag Enw a Statws Ardaloedd ac Unigolion

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyir i** |
|---|---|---|
| **1.** Pŵer i newid enw sir neu enw bwrdeistref sirol. | Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor |
| **2.** Pŵer i newid enw cymuned. | Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor |
| **3.** Pŵer i roi teitl henadur anrhydeddus i rywun neu i dderbyn rhywun yn rhyddfreiniwr anrhydeddus. | Adran 249 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor |
| **4.** Pŵer i ddeisebu o blaid siarter i roi statws bwrdeistref sirol | Adran 245A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor |

### F. Pŵer i Wneud, Diwygio, Diddymu neu Ail-Ddeddfu Is-ddeddfau

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyir i** |
|---|---|---|
| Pŵer i wneud, diwygio, diddymu neu ail-ddeddfu is-ddeddfau | Unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw ddeddfiad (yn cynnwys Deddf leol), pryd bynnag y daeth i rym, ac adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978 | Y Cyngor |

### G. Pŵer i Hyrwyddo neu i Wrthwynebu Mesurau Lleol neu Bersonol

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyir i** |
|---|---|---|
| Pŵer i hyrwyddo neu i wrthwynebu mesurau lleol neu bersonol | Adran 239 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor |

### H. Swyddogaethau sy'n Ymwneud â Phensiynau ac Ati

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyir i** |
|---|---|---|
| **1.** Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol ac ati | Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dâl 1972<br><br>Deddf Pensiyanu Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2014 | Y Cyngor. Y Prif Weith-redwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol<br><br>Bwrdd Pensiwn Lleol |

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **2.** Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd | Rheoliadau o dan adran 18 (3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 | Y Cyngor. Y Prif Weith-redwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **3.** Swyddogaethau o dan gynlluniau pensiwn cyfredol sy'n ymwneud â phobl a gyflogir gan yr awdurdodau tân ac achub yn unol ag adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | Adrannau 34 a 36 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | Y Cyngor.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

**I. Amrywiol Swyddogaethau**

| Swyddogaeth | Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **1.** Dyletswydd i gymeradwyo datganiad yr awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (fel y bo'n berthnasol) | Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| **2.** Swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd môr | Adrannau 1, 2, 10 ac 19 o Ddeddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **3.** Pwerau sy'n ymwneud â chadwraeth coed. | Adrannau 197 i 214D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (S.I. 1999/1892) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **4.** Pwerau sy'n ymwneud â diogelu gwrychoedd pwysig | Rheoliadau Gwrychoedd (Perthi) 1997 (S.I. 1997/1160) | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **5.** Pŵer i wneud rheolau sefydlog. | Adran 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a pharagraff 42 o Atodlen 12 iddi | Y Cyngor |
| **6.** Penodi a diswyddo staff | Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adrannau 7 ac 8 o Ddeddf | Gweler tabl 3 isod a Rheolau Gweithdrefn |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Leol a Thai 1989 | Cyflogi Swyddogion |
| **7.** Pŵer i wneud rheolau sefydlog yng nghyswllt contractau | Adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Pwyllgor Llywodraethu & Archwilio |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyir i** |
| **8.** Pŵer i ystyried adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Adran 19 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 | Y Cyngor |
| **9.** Pŵer i wneud gorchymyn yn nodi bod lle yn fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu yng nghyswllt yfed alcohol | Adran 13(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 | Y Pwyllgor Trwyddedu |
| **10.** Pwerau yng nghyswllt cofrestru gweithredwyr arbed rhannau o geir | Rhan 1 o Ddeddf (Troseddau) Cerbydau 2001 | Y Pwyllgor Trwyddedu. Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **11.** Pŵer i benodi swyddogion at ddibenion penodol (penodi "swyddogion priodol”) | Adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Y Cyngor |
| **12.** Dyletswydd i benodi Prif Weithredwr ac i ddarparu staff ac ati | Adran 54(1) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Y Cyngor |
| **13.** Dyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro ac i ddarparu staff ac ati | Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 | Y Cyngor |
| **14.** Dyletswydd i bennu terfyn benthyca fforddiadwy | Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 | Y Cyngor. |
| **15.**Cymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â'r canllawiau | Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 | Y Cyngor. |
| **16.** Dyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol | Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |

**TABL 2 - SWYDDOGAETHAU DEWIS LLEOL**

| Swyddogaeth | Y Corff sy'n gwneud y penderfyniadau | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **1.** Unrhyw swyddogaeth o dan Ddeddf leol heblaw swyddogaeth a nodir neu y cyfeirir ati yn Nhabl 1 uchod | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **2.** Penderfynu ar apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod neu ar ei ran.<br>(a) unrhyw fater a nodir yn nhabl 3<br>(b) unrhyw fater arall | Y Cyngor<br>Y Cabinet | Pwyllgor Apêl Disgyblu ar gyfer Swyddogion JNC<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **3.** Swyddogaethau yng nghyswllt adolygu penderfyniadau a wnaed ynghylch hawliadau budd-dal tai neu fudd-dal treth y cyngor ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau o'r fath o dan adran 68 o Ddeddf Cynnal Plant, Pensiynau a Nawdd Cymdeithasol 2000 ac atodlen 7 iddi | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **4.** Gwneud trefniadau yng nghyswllt apeliadau yn erbyn gwahardd disgyblion mewn ysgolion a gynhelir o dan Adran 52 o Ddeddf Addysg 2002 | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol (Sylwer:- mae hyn yn cynnwys penodi panel apeliadau addysg annibynnol) |
| **5.** Gwneud trefniadau yn unol ag adran 94(1), (1A) a (4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (apeliadau derbyn) ac Atodlen 24 iddi. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol (Sylwer:- mae hyn yn cynnwys penodi panel apeliadau addysg annibynnol) |

| Swyddogaeth | Y Corff sy'n gwneud y penderfyniadau | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **6.** Gwneud trefniadau yn unol ag adran 95(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (plant y mae adran 87 yn gymwys iddynt: Apeliadau gan gyrff llywodraethu). | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol (Sylwer:- mae hyn yn cynnwys penodi panel apeliadau addysg annibynnol) |
| **7**. Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2013<br><br>“Proses Gwneud Penderfyniadau Trefniadaeth Ysgolion”<br><br>Cam 1 (Hawl i Ymgynghori)<br>Cam 2 (Hawl i Hysbysu)<br>Cam 3 (Hawl i Weithredu).<br><br>Y broses ddiwygiedig fel y cytunwyd arni gan y Cyngor ar 13 Ionawr 2021 – Gweler Cofnod 7.2<br><br>**Diwygiwyd ymhellach gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2004 (Gweler cofnod 11) | Cam 1 – Y Cabinet yn dilyn ymgynghori â’r Pwyllgor Craffu – Addysg a Phlant **Cynigion statudol yn unig – nid yw Ymgynghori ynghylch Craffu yn berthnasol i'r Adolygiad o Ysgolion Gwledig.<br><br>Cam 2 – Y Cabinet (dim angen ymgynghori â’r Pwyllgor Craffu)<br><br>Cam 3 – Y Cyngor Sir yn dilyn argymhelliad y Cabinet (dim angen ymgynghori â’r Pwyllgor Craffu) | |
| **8.** Gwneud trefniadau o dan adran 20 (cwestiynau ynghylch materion yr heddlu yng nghyfarfodydd y cyngor) o Ddeddf yr Heddlu 1996 i ganiatáu gofyn cwestiynau ynghylch cyflawni swyddogaethau awdurdod heddlu. | Y Cyngor | |
| **9.** Gwneud penodiadau o dan baragraffau 2 i 4 (penodi aelodau gan gynghorau perthnasol) o Atodlen 2 (awdurdodau heddlu a sefydlwyd o dan adran 3) i Ddeddf yr Heddlu 1996. | Y Cyngor | |
| **10.** Cynnal adolygiadau gwerth gorau yn unol â darpariaethau unrhyw orchymyn sydd mewn grym ar y pryd o dan adran 5 | Y Cabinet a’r Pwyllgor Craffu perthnasol. | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth |

| Swyddogaeth | Y Corff sy'n gwneud y penderfyniadau | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| (adolygiadau gwerth gorau) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. | | perthnasol, ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd neu'r Aelod(au) priodol o'r Cabinet |
| **11.** Unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â thir wedi'i halogi. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **12.** Cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **13.** Cyflwyno hysbysiad gostegu mewn perthynas â niwsans statudol | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **14.** Pasio penderfyniad y dylai Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 fod yn gymwys yn ardal yr Awdurdod. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **15.** Cynnal arolwg o ardal yr Awdurdod i ddod o hyd i unrhyw niwsans statudol. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **16.** Ymchwilio i unrhyw gwyn ynghylch bodolaeth niwsans statudol. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **17.** Sicrhau gwybodaeth o dan adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ynghylch buddiannau mewn tir | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **18.** Sicrhau manylion personau sydd â buddiant mewn tir o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **19.** Gwneud cytundebau ar gyfer cyflawni gwaith ar y priffyrdd. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |

| Swyddogaeth | Y Corff sy'n gwneud y penderfyniadau | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **20.** Penodi unrhyw unigolyn:-<br>(a) i unrhyw swydd heblaw swydd y mae'n cael ei gyflogi ynddi gan yr Awdurdod;<br>(b) i unrhyw gorff heblaw am:-<br>(i) yr Awdurdod;<br>(ii) cyd-bwyllgor o ddau neu ragor o Awdurdodau; neu<br>(c) i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyfryw gorff,<br>a diddymu unrhyw benodiad o'r fath. | Y Cyngor | Pwyllgor Penodi'r Aelodau<br><br>Lle bo cynrychiolaeth ar gorff allanol yn gofyn bod barn y Cyngor yn cael ei chynrychioli fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau, a bod ei swyddogaethau'n cael eu cwmpasu gan y rhai a ddyrannwyd i'r Cabinet, y Cabinet fydd yn gwneud y penodiad. |
| **21.** Pŵer i wneud taliadau neu i ddarparu buddiannau eraill mewn achosion o gamweinyddu ac ati | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **22.** Cyflawni unrhyw swyddogaeth gan awdurdod sy'n gweithredu fel awdurdod harbwr. | Y Cyngor | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **23.** Swyddogaethau ynghylch cyfrifo sylfaen treth y cyngor, yn unol ag unrhyw un o'r canlynol:<br>(a) Penderfynu ar eitem o dan adran 33 (1) a 44 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992<br>(b) Pennu swm ar gyfer eitem o dan adrannau 34 (3), 45 (3), 48 (3) a 48 (4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992<br>(c) Penderfynu ar y swm sy'n angenrheidiol er mwyn pennu swm ar gyfer yr eitem a nodwyd ym mharagraff (a) neu (b) uchod | Y Cabinet | |

| Swyddogaeth | Y Corff sy'n gwneud y penderfyniadau | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **24.** Swyddogaethau trwyddedu yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Trwyddedu 2003, heblaw am adran 6 | Y Cyngor | 1. Unrhyw gais;<br>(a) am drwydded bersonol<br>(b) am amrywio goruchwylydd penodedig safle<br>(c) am drosglwyddo trwydded safle<br>(d) ar gyfer awdurdodau interim<br>(e) gan safleoedd cymunedol i ddileu'r amod orfodol sy'n gofyn bod goruchwylydd penodedig ar gyfer y safle:-<br><br>Os bydd gwrthwynebiad gan yr heddlu, yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Fel arall, y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol.<br>2. Mewn achosion sy'n ymwneud â'r canlynol;<br>(a) cais am drwydded bersonol gyda chollfarnau sydd heb ddarfod<br>(b) cais am adolygu trwydded safle/tystysgrif safle clwb<br>(c) penderfyniad i wrthwynebu pan fo'r Cyngor yn ymgynghorai, yn hytrach na bod yn awdurdod perthnasol sy’n ystyried y cais<br>(d) penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu i hysbysiad am ddigwyddiad dros dro:-<br><br>Is-bwyllgor Trwyddedu. |

| Swyddogaeth | Y Corff sy'n gwneud y penderfyniadau | Dirprwyir i |
|---|---|---|
| **24. parhad** Swyddogaethau trwyddedu yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Trwyddedu 2003, heblaw am adran 6 | Y Cyngor | 3. Unrhyw gais;<br>(a) am drwydded safle/tystysgrif safle clwb<br>(b) am ddatganiad dros dro<br>(c) am amrywio trwydded safle/tystysgrif safle clwb;-<br><br>Os cyflwynir sylwadau perthnasol, yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Fel arall, y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol.<br><br>4. Mewn achosion sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>(a) cais am dynnu'ch enw fel Goruchwylydd Penodedig Safle<br>(b) penderfyniad ynghylch a yw cwyn yn amherthnasol, yn wamal, yn flinderus ac ati:-<br><br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol.<br><br>5. Cais am fân amrywiad:-<br><br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol<br><br>6. Atal neu ddirymu trwydded bersonol:<br><br>Is-bwyllgor Trwydddedu ym mhob achos.<br><br>7. Cais Categoreiddio Ffilmiau: |

| **Swyddogaeth** | **Y Corff sy'n gwneud y penderfyniadau** | **Dirprwyir i** |
|---|---|---|
| | | Lle nad yw'r Ffilm wedi'i chategoreiddio o'r blaen – Is-bwyllgor Trwyddedu.<br><br>Lle bo'r ffilm sydd wedi'i chategoreiddio o'r blaen i'w dangos ar safle gwahanol – y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth. |
| **25.** Swyddogaethau yng nghyswllt hapchwarae, yn unol ag unrhyw un o'r canlynol:<br><br>(a) penderfyniad i beidio â chyflwyno trwyddedau casino yn unol ag adran 166 o Ddeddf Hapchwarae 2005<br>(b) Rhagnodi ffioedd yn unol ag Adran 212 o Ddeddf Hapchwarae 2005.<br>(c) Gwneud gorchymyn sy'n anghymhwyso Adran 279 neu Adran 282 (1) o Ddeddf Hapchwarae 2005 yn unol ag Adran 284 o Ddeddf Hapchwarae 2005.<br>(d) Pobl awdurdodedig yn unol ag Adran 304 o Ddeddf Hapchwarae 2005.<br>(e) Erlyniadau gan awdurdod trwyddedu yn unol ag Adran 346 o Ddeddf Hapchwarae 2005.<br>(f) Polisi trwyddedu 3 blynedd, yn unol ag Adran 349 o Ddeddf Hapchwarae 2005. | Y Cyngor | Y Pwyllgor Trwyddedu.<br>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol |
| **26.** Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 Ymgymryd â "Gwrandawiadau Llafar" ynghylch ceisiadau a wrthodwyd gan Swyddogion (Cofnod 7 BG – 30 Medi 2013) | Y Cabinet | |
| 27. Perfformiad, asesiadau perfformiad a darpariaethau ymyrraeth fel y cyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | Y Cyngor | |

**TABL 3 - PWYLLGORAU'R CYNGOR**

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Penodi ac Ymchwiliadau**<br>10 Aelod (Rhaid iddynt gynnwys mwyafrif nad ydynt yn Aelodau o'r Cabinet) | Yng nghyswllt eitem 6 o ran I tabl 1 uchod:-<br><br>(a) Gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir o ran penodi Prif Weithredwr.<br><br>(b) Penodi Cyfarwyddwyr.<br><br>(c) Penodi Penaethiaid Gwasanaeth a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>(d) Ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad swyddogion JNC yn unol â gweithdrefnau JNC y cytunwyd arnynt ac i bennu'r camau y dylid eu cymryd. | Rhaid ymdrin â phob penodiad is na lefel Pennaeth Gwasanaeth yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion.<br><br>Mae'r holl faterion disgyblu islaw lefel y Pennaeth Gwasanaeth i'w trin yn unol â'r broses Apelio Swyddogion. |
| **Pwyllgor Apêl ar gyfer Swyddogion JNC**<br>6 aelod | Ystyried Apeliadau Disgyblu mewn perthynas â chamau disgyblu a gymerwyd yn erbyn yr holl Swyddogion a gyflogir o dan delerau ac amodau JNC. | Mae'r holl apeliadau disgyblu islaw lefel Pennaeth Gwasanaeth yn cael eu trin gan banel apêl Swyddogion |

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**<br>8 Aelod<br>+ 4 Aelod Lleyg | (1) adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr Awdurdod,<br><br>(2) cyflwyno adroddiadau ac argymhellion yng nghyswllt materion ariannol yr awdurdod,<br><br>(3) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant corfforaethol yr awdurdod,<br><br>(4) cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonoldeb ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,<br><br>(5) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol a rheoli risg yr awdurdod, yn cynnwys:<br><br>(a) monitro pa mor ddigonol ac effeithiol yw’r Archwilio Mewnol a'r Rheoli Risg ac i ba raddau y mae’r Rheolwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran sicrhau bod rheolaeth ddigonol yn bodoli ar draws y sefydliad;<br><br>(b) cymeradwyo Siarter Archwilio'r Awdurdod;<br><br>(c) derbyn Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol oddi wrth Bennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun;<br><br>(d) derbyn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol oddi wrth Bennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn archwilio;<br><br>(e) derbyn ac ystyried canfyddiadau o bwys ac argymhellion yn ymwneud ag archwilio mewnol;<br><br>(f) derbyn cofnodion Grŵp Llywio Rheoli Risg yr Awdurdod a derbyn adroddiadau mewn perthynas â risgiau o bwys sy’n nodi diffygion neu wendidau sylweddol o ran rheoli, eu heffaith bosibl neu wirioneddol, a’r camau y mae angen eu cymryd neu sy'n cael eu cymryd i unioni’r sefyllfa;<br><br>(g) monitro ymateb y Rheolwyr i ganfyddiadau o bwys a’r modd y gweithredir argymhellion allweddol<br><br>(h) adolygu asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i’r Cyngor o dwyll a llygredigaeth.<br><br>(i) monitro’r strategaeth gwrth-dwyll, y camau gweithredu a’r adnoddau. | |

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Parhad…** | (6) goruchwylio trefniadau archwilio allanol yr awdurdod, yn cynnwys<br>(a) monitro pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gwasanaeth Archwilio Allanol ac ymateb i'w ganfyddiadau;<br>(b) trafod gyda'r archwilydd allanol natur a chwmpas yr archwiliad o wasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor Sir, ac ystyried y ffi a godir gan archwilio allanol a thelerau eu cyflogi;<br>(c) derbyn ac ystyried adroddiadau archwilio allanol a llythyron y rheolwyr a chynghori'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol;<br>(d) monitro ymateb y Rheolwyr i ganfyddiadau'r archwilydd allanol a'r modd y gweithredir argymhellion yr archwilydd allanol<br>(7) Adolygu ac asesu gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion o ran gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.<br>(8) cymeradwyo'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod;<br>(9) craffu ar Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor Sir ac unrhyw ddatganiadau atodol sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) e.e. Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>(10) cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Blynyddol Cronfa Bensiwn Dyfed<br>(11) ystyried a chymeradwyo newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau<br>(12) ystyried a chymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol<br>(13) cyfweld ag ymgeiswyr am sedd(au) Aelod(au) Lleyg o'r Pwyllgor, ac argymell penodiad(iau) i'r Cyngor. | |

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**<br>5 Aelod | (1) adolygu digonoldeb darpariaeth yr awdurdod o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd, a<br><br>(2) chyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod o leiaf yn flynyddol yng nghyswllt y cyfryw ddarpariaeth.<br><br>(3) sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad rhesymol ar gyfer Cynghorwyr a pharatoi adroddiadau ac argymhellion ar gyfer y Cyngor yng nghyswllt y cyfryw ddarpariaeth;<br><br>(4) penodi Hyrwyddwr Datblygu Aelodau ar gyfer y Cyngor;<br><br>(5) ymgynghorir â'r Pwyllgor ynghylch rhoi cynnwys adroddiadau a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar waith mewn perthynas â lwfansau aelodau ac ati.<br><br>(6) hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor.<br><br>(7) ar gais yr awdurdod, adolygu unrhyw fater sy'n berthnasol i : (a) y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i aelodau'r awdurdod hwnnw a (b) telerau ac amodau swydd yr aelodau hynny.. | |
| **Pwyllgor Ymchwilio "A" ar gyfer Cyfarwyddwyr ***<br>Yr Aelodaeth i gael ei hystyried yn ôl y galw. | Yng nghyswllt eitem 6 o ran I tabl 1 uchod:-<br><br>Ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad Swyddogion y Cyd-gyngor Cenedlaethol (JNC) yn unol â gweithdrefnau cytunedig y JNC, a phenderfynu ar y camau i'w cymryd. | |
| **Pwyllgor Ymchwilio "B" ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth ***<br>Yr Aelodaeth i gael ei hystyried yn ôl y galw. | Yng nghyswllt eitem 6 o ran I tabl 1 uchod:-<br><br>Ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad Swyddogion y Cyd-gyngor Cenedlaethol (JNC) yn unol â gweithdrefnau cytunedig y JNC, a phenderfynu ar y camau i'w cymryd. | |

[*Cyfeiriwch at bwerau dirprwyedig y Prif Weithredwr yn Rhan 3.2]

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed**<br>3 Aelod<br>+ 1 Dirprwy Parhaol | <u>Panel Cronfa Bensiwn Dyfed</u><br><br>Penderfynu ar yr holl faterion polisi a chyfeiriad strategol buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn.<br>Adolygu a monitro perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa.<br>Adolygu a phenderfynu ar holl faterion Prisio'r Gronfa Bensiwn.<br>Penderfynu ar faterion polisi a strategol Gweinyddu Cronfa Bensiwn yr Awdurdod.<br><br>Dirprwyir materion gweithrediadol y Swyddogaethau Buddsoddi a Gweinyddu i Gyfarwyddwr Adnoddau<br><br><u>Cronfa'r Degwm yn Nyfed</u><br>Penderfynu ar gyfeiriad strategol buddsoddiadau Cronfa'r Degwm.<br>Adolygu a monitro perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa. | |
| **Pwyllgor Trwyddedu**<br>14 Aelod | Yr holl swyddogaethau a bennir felly yn nhabl 1 (rhannau B ac I) a thabl 2 uchod.<br>Argymell i'r Cyngor ychwanegiadau a/neu newidiadau polisi mewn perthynas â swyddogaethau'r Pwyllgor.<br><br>Penderfynu ar geisiadau am drwyddedau cyntaf neu adnewyddu trwyddedau i yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat. Penderfynu ar geisiadau am drwyddedau cyntaf neu adnewyddu trwyddedau gweithredwyr.<br>Penderfynu ar geisiadau cychwynnol am drwyddedau neu geisiadau am adolygu trwyddedau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005.<br><br>Penderfynu ar geisiadau am hawlenni i gasglu o dŷ i dŷ ac ar y stryd. Atal, amrywio, diddymu neu wrthod trwyddedau casglu o dŷ i dŷ ac ar y stryd, gyrwyr, gweithredwyr a cherbydau.<br><br>Penderfynu ar geisiadau dadleuol o dan Gynllun Cofrestru'r "Gweithredwyr Arbed Rhannau o Geir''.<br><br>Yr Is-bwyllgor Trwyddedu i benderfynu ar geisiadau am ganiatáu 3 neu fwy o beiriannau hapchwarae mewn eiddo â thrwydded i werthu alcohol, neu geisiadau sy'n destun gwrthwynebiad, o dan adran 34 o Ddeddf Hapchwarae 1968 a Deddf Hapchwarae 2005.<br><br>Penderfynu ar geisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu triniaethau arbennig gan gynnwys aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Is-bwyllgor Trwyddedu lle mae darpariaethau Atodlen 3 paragraff 21 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gymwys. | Pob mater heblaw materion polisi. |

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Penodi'r Aelodau**<br>7 Aelod | Penderfynu ar yr aelodau a benodir i wasanaethu ar gyrff allanol<br>Lle bo cynrychiolaeth ar gorff allanol yn gofyn bod barn y Cyngor yn cael ei chynrychioli fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau, a bod ei swyddogaethau'n cael eu cwmpasu gan y rhai a ddyrannwyd i'r Cabinet, y Cabinet fydd yn gwneud y penodiad. | |
| **Pwyllgor Cynllunio**<br>21 Aelod ** | Cynllunio a Chadwraeth. Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu, fel y nodir yn rhan A o dabl 1 uchod, ynghyd â'r swyddogaethau o dan eitemau 3 a 4 o ran I tabl 1.<br>Materion sy'n ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus fel y nodir yn nhabl 1 a swyddogaethau anweithredol sy'n ymwneud â phriffyrdd a swyddogaethau sy'n ymwneud â choed, gwrychoedd a phalmentydd.<br>Penderfynu ar "geisiadau gwyro". | Pob mater heblaw'r rhai sy'n ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol |
| **Pwyllgor Safonau**<br>3 Aelod<br>+ 5 aelod annibynnol â phleidlais<br>+ 1 Aelod Cymunedol Cyfetholedig â phleidlais | Fel y nodir yn Erthygl 9 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad | |

**Troednodyn:** Lle bo Pwyllgor yn penodi neu'n diswyddo swyddogion ar ran y Cyngor mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2006 yn gofyn bod o leiaf un aelod o'r Pwyllgor yn Aelod o'r Cabinet. Fodd bynnag, ni chaiff mwy na hanner aelodau'r Pwyllgor fod yn Aelodau o'r Cabinet.

***** Pwyllgorau Cynllunio:-***

*Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 i bwyllgorau cynllunio yng Nghymru gael eu strwythuro a'u gweithredu yn unol â'r gofynion canlynol:*

- *Rhaid i'r pwyllgor cynllunio gynnwys heb fod yn llai nag 11 aelod a heb fod yn fwy na 21 aelod, ond ni ddylai gynnwys mwy na 50% o aelodau'r awdurdod (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf)*

- *Mewn achosion lle ceir mwy nag un aelod etholedig mewn ward, dim ond un aelod all fod yn rhan o'r pwyllgor cynllunio, er mwyn caniatáu i aelodau eraill y ward gyflawni'r rôl gynrychioladol ar gyfer buddiannau cymunedau lleol.*

*Yn ogystal mae'r canlynol yn ofynnol yn ôl Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2017*

- *Rhaid i bob cyfarfod o'r pwyllgor cynllunio gael cworwm o 50% er mwyn gwneud penderfyniadau; ac*

- *Mae'r defnydd o aelodau dirprwyol yn cael ei wahardd.*

**TABL 4 - SWYDDOGAETHAU'R CABINET**

Swyddogaethau'r Cabinet yw holl swyddogaethau'r Cyngor, ar wahân i'r canlynol:

1. Swyddogaethau'r Cyngor a nodir yn nhabl 1 uchod
2. Swyddogaethau dewis lleol a ddyrannwyd i'r Cyngor, a nodwyd yn nhabl 2 uchod
3. Swyddogaethau na chaniateir iddynt fod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet yn unig, fel y nodir yn erthygl 4.01 o ran 2 o'r Cyfansoddiad
4. Penderfyniadau a allai wrthdaro â'r canlynol;

- cyllideb y Cyngor neu ei gynlluniau benthyca
- rheoliadau ariannol neu reolau sefydlog ariannol
- strategaeth gyffredinol neu fframwaith polisi'r Cyngor

ac mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Cabinet gyfeirio'r mater at y Cyngor i'w benderfynu yn derfynol.

| **Swyddogaeth** | **Dirprwyir i** |
|---|---|
| **(a) Y swyddogaeth Llywodraethu ac Adnoddau Corfforaethol**<br>• Cynllunio, cyllidebu a rheolaeth ariannol priodol<br>• Rheoli adnoddau'r Awdurdod<br>• Rheoli Tir ac Eiddo<br>• Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth<br>• Gwasanaethau Personél<br>• Gwasanaethau Ariannol<br>• Cofrestru Etholiadol<br>• Gwasanaethau Cyfreithiol<br>• Gwasanaethau Archwilio<br>• Gwasanaethau Caffael<br>• Gwasanaethau Democrataidd<br>• Cynlluniau Argyfwng<br>• Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau<br>• Gwasanaethau Eiddo<br>• Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor<br>• Cudd-wylio, rhyddid gwybodaeth a diogelu data | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **(b) Y Swyddogaeth Personél**<br>Pob agwedd ar swyddogaethau'r Cyngor fel cyflogwr gan gynnwys trosolwg o recriwtio, apeliadau disgyblu sy'n is na lefel Pennaeth Gwasanaeth, achwyniadau, telerau ac amodau cyflogaeth, ymddygiad a disgyblaeth, adolygiad strwythurol a chanlyniadau hynny. | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. (heblaw am gymeradwyo indemniadau ar gyfer achos enllib, a fydd yn cael ei gadw'n ôl i'r Cabinet) |

| Swyddogaeth | Dirprwyir i |
|---|---|
| **(c) Swyddogaeth Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai**<br>• Materion Strategol yng nghyswllt darparu gwasanaethau i oedolion - Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Yr holl wasanaethau gofal cleientiaid mewn lleoliadau preswyl (yn cynnwys gwasanaethau lletya)<br>• Pryd ar Glud<br>• Yr holl wasanaethau gofal cleientiaid mewn lleoliadau cartref<br>• Yr holl ddarpariaethau gofal cleientiaid mewn lleoliadau gofal dydd<br>• Rhaglen ailsefydlu ar ôl bod mewn ysbyty<br>• Gorfodaeth Tai Preifat (yn cynnwys tai amlfeddiannaeth, clirio, gorchmynion prynu gorfodol, ardaloedd adfywio a phob math ar grantiau adnewyddu)<br>• Gwasanaeth Asiantaeth Tai<br>• Gwasanaethau Landlordiaid, Gwasanaethau Technegol Tai a Strategaeth ac Adnoddau | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **(d) Swyddogaeth Addysg a Gwasanaethau Plant**<br>• Gwasanaethau cymdeithasol i blant<br>• Gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar<br>• Seicoleg addysg, lles addysg, cymorth ymddygiadol a rheoli gwaharddiadau disgyblion<br>• Cyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor fel Awdurdod Addysg Lleol yn unol â'r statud<br>• Gweithredu Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998<br>• Rheoli Ysgolion yn Lleol ac Ariannu Teg<br>• Cymorth a hyfforddiant i Lywodraethwyr<br>• Cymorth data i Ysgolion<br>• Blaengynllunio o ran llefydd ysgol, cludiant o'r cartref i'r ysgol, derbyn plant i'r ysgol<br>• Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg<br>• Gwella Ysgolion<br>• Y Gwasanaeth Troseddu ac Atal Troseddu Ieuenctid<br>• Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid<br>• Dysgu Cymunedol ac i Oedolion<br>• Dyfarniadau i fyfyrwyr<br>• Arlwyo a Glanhau mewn Ysgolion<br>• Llyfrgelloedd cyhoeddus a'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion<br>• Amgueddfeydd<br>• Cynllunio a Phartneriaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, yn cynnwys y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Bwrdd Lleol Diogelu Plant | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |

| Swyddogaeth | Dirprwyir i |
|---|---|
| **(e) Swyddogaeth Iechyd Amgylcheddol, Safonau Masnach a Thai**<br>• Rheoli Llygredd (yn cynnwys sŵn, sbwriel a gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon, ansawdd aer a dŵr, tir wedi'i halogi)<br>• Iechyd Cyhoeddus (yn cynnwys clefydau heintus, niwsans statudol, carthffosydd / draeniau, hybu iechyd/addysg)<br>• Gorfodi Safonau Masnach<br>• Gorfodi Diogelwch Bwyd<br>• Gorfodi Iechyd a Diogelwch ar safleoedd masnachol<br>• Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gan gynnwys cysylltu â'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch<br>• Diogelwch Cymunedol<br>• Rheoli Plâu, Warden Cŵn, Gwasanaethau Anifeiliaid sy'n Tresbasu<br>• Gorfodi Iechyd a Lles Anifeiliaid<br>• Trwyddedu<br>• Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol.<br><br>Is-bwyllgor sy'n cynnwys 5 aelod i gynnal Gwrandawiadau Llafar ynghylch Ceisiadau mewn perthynas â cheisiadau sydd wedi cael eu gwrthod gan Swyddogion |
| **(f) Y Swyddogaeth Drafnidiaeth**<br>• Cynnal a Chadw Priffyrdd, a fydd yn cynnwys pwerau i:- caniatâd i adael sgipiau adeiladwyr ar y briffordd; trwyddedu plannu, cadw a chynnal coed ac ati ar ran o'r briffordd; gwaith trwyddedu mewn perthynas ag adeiladau ac ati sy'n rhwystr ar y briffordd; caniatâd i ollwng deunydd ar strydoedd neu eu gwacáu dros dro; hepgor y rhwymedigaeth i godi palis neu ffens; cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau ac ati dros briffyrdd; caniatâd i adeiladu seleri ac ati o dan y stryd; caniatâd i agor mynedfeydd i seleri a gosod goleuadau ac awyryddion pafin, a chlirio pethau a adewir yn niwsans ar y priffyrdd. Hefyd, y ddyletswydd i ddatgan a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau priffyrdd.<br>• Cynllunio a Gwella Trafnidiaeth<br>• Gwasanaethau Peirianneg<br>• Trafnidiaeth Gyhoeddus<br>• Adfer Tir<br>• Draenio Tir<br>• Addysg a Hyfforddiant Diogelwch Ffyrdd (yn cynnwys Ymgynghoriaeth Gwent)<br>• Contract Dŵr Cymru<br>• Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys casglu sbwriel, gwaredu sbwriel, glanhau strydoedd, sgipiau cymunedol, cyfleusterau cyhoeddus, mynwentydd<br>• Gorchmynion cau o dan y Deddfau cynllunio | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |

| Swyddogaeth | Dirprwyir i |
|---|---|
| **(g) Swyddogaeth Cynllunio Cymunedol a Busnes Gwerth Gorau**<br>• Datblygu rhaglen Gwerth Gorau ar draws yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1999<br>• Datblygu a gweithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a themâu corfforaethol a datblygu a chydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth drwy ddull cynllunio cymunedol amlasiantaeth i wireddu amcanion strategol y Cyngor<br>• Gweinyddu rhaglen fusnes y Cabinet drwy ymgynghori ag Ysgrifennydd y Cabinet | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **(h) Y Swyddogaeth Adfywio a Hamdden**<br>• Datblygu Economaidd a Chymunedol<br>• Twristiaeth<br>• Mewnfuddsoddi<br>• Datblygu Busnes<br>• Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu o ffynonellau allanol gan gynnwys arian o ffynonellau Ewropeaidd a chartref.<br>• Cynllunio – Gwasanaethau Datblygu a Rheoli Adeiladu<br>• Cynllunio – Adnewyddu Trefol<br>• Cynllunio – Gwasanaethau Cadwraeth Cefn Gwlad a Thirwedd, yn cynnwys penderfynu ar faterion hawliau tramwy cyhoeddus sy'n codi o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Priffyrdd 1980. | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **(i)** Pŵer i gytuno ar drefniadau swyddogaeth ar y cyd neu ddirprwyedig gydag un neu fwy o awdurdodau neu gyrff eraill fel y caniateir gan y gyfraith o bryd i'w gilydd a dirprwyo swyddogaethau'r weithrediaeth. | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **(j)** Unrhyw swyddogaethau gweithredol sydd heb eu neilltuo yn unol â threfniadau gweithredol y Cyngor.<br>Adran 15(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 | Yr Arweinydd |
| **(k)** Pŵer i sefydlu pwyllgorau'r Cabinet at unrhyw ddiben a dirprwyo pŵer neu bwerau priodol i'r pwyllgor hwnnw. | |

| **Swyddogaeth** | **Dirprwyir i** |
|---|---|
| **(l)** Camau gweithredu brys lle bo angen hynny i ddiogelu buddiannau'r Cyngor. | Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol. |
| **(m)** Gweithredu a monitro polisïau ac arferion Rheoli Trysorfa'r Cyngor | |
| **(n)** Penodiadau i gyrff allanol lle bo'r gynrychiolaeth yn gofyn bod barn y Cyngor yn cael ei chynrychioli fel rhan o'i brosesau gwneud penderfyniadau, ac mae eu swyddogaethau yn cael eu cwmpasu gan y rhai a ddyrannwyd i'r Cabinet. | |